| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **30 Gorffennaf 2015** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Economi a'r Parth Cyhoeddus** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rebecca Maxwell/Jonathan Williams, Gwasanaeth Rhanbarthol i Gynllunio Rhag Argyfwng -Cynghorau Gogledd Cymru (GRhGRhA-CGC)** |
| **Teitl:** | **Gwasanaeth Rhanbarthol i Gynllunio Rhag Argyfwng – Diweddariad** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar y newid i drefniadau Cynllunio Rhag Argyfwng rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru, creu Gwasanaeth Rhanbarthol i Gynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru (GRhGRhA-CGC) ac mae'n cynnwys y rhaglen waith a ddilynir ar hyn o bryd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Ym mis Mawrth 2013, cytunodd y Cabinet i symud i fodel rhanbarthol ar gyfer cynllunio rhag argyfwng ar draws y 6 Chyngor yng Ngogledd Cymru. Daeth y gwasanaeth newydd yn weithredol ym mis Gorffennaf 2014. Roedd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau wedi gofyn am ddiweddariad ar y trefniadau newydd unwaith yr oeddent wedi ymsefydlu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gwahoddir y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau i ystyried y newyddion diweddaraf ar sefydlu'r Gwasanaeth Rhanbarthol i Gynllunio Rhag Argyfwng a rhoi sylwadau ar y rhaglen waith sydd bellach ar y gweill.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Aeth y gwasanaeth rhanbarthol newydd – Gwasanaeth Rhanbarthol i Gynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru yn fyw ar 1 Gorffennaf 2014. Roedd y newid ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych yn llai nag ar gyfer Cynghorau eraill yng Ngogledd Cymru gan ein bod wedi bod yn gweithredu gyda gwasanaeth pell a gynhaliwyd gan Sir y Fflint ers rhai blynyddoedd. O dan y trefniadau, mae gan bob Cyngor Swyddog Cyswllt Cynllunio rhag Argyfwng penodol yn ogystal â mynediad i gefnogaeth wrth gefn llawn gan y gwasanaeth cynllunio rhanbarthol yn ei gyfanrwydd. Mae swyddogion wedi eu lleoli'n ffurfiol mewn dwy ganolfan – yng Nghonwy a Sir y Fflint – gyda'r swyddog cyswllt yn treulio llawer o amser wrth weithfan yn eu hawdurdod dynodedig.

4.2 Mae’r tîm rhanbarthol yn gweithio i gynllun gwasanaeth y cytunwyd arno gyda rheolaeth weithredol gan Reolwr Rhanbarthol a Dirprwy Reolwr. Mae Bwrdd Gweithredol sy’n cynnwys uwch swyddogion o bob Cyngor yn goruchwylio’r gwasanaeth. Mae’r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Economi a’r Parth Cyhoeddus yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych.

4.3 Y manteision a fwriadwyd wrth sefydlu’r gwasanaeth rhanbarthol oedd:

- Gwella hyblygrwydd a gwella sut y caiff adnoddau eu targedu trwy rannu cefnogaeth arbenigol a thasgau cyffredin
- Mwy o gysondeb a lledaenu arfer gorau
- Sianeli cyfathrebu gwell
- Arbedion effeithlonrwydd sy'n rhyddhau arian

Ar y cyfan mae'r rhain yn cael eu cyflawni. Atodir y diweddariad ar y gwasanaeth diweddaraf (Mai 2015) yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

4.4 Mae blaenoriaethau gwaith yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth rhanbarthol yn cynnwys:

- Diweddaru amrywiol gynlluniau ymateb penodol i risg rhanbarthol– Arllwysiad Olew Morol, Trychinebau Torfol, Rhybuddion Llifogydd, Cemegol, Niwclear
- Datblygu safon ymateb i argyfwng rhanbarthol
- Gweithredu'r offeryn gwydnwch ar y we fel cyfleuster archif a rhannu gwybodaeth
- Gwell hyfforddiant ac ymarfer yn y Ganolfan Orffwys

4.5 O ran ymateb i Gynllunio Rhag Argyfwng Cyngor Sir Ddinbych, cefnogwyd y gweithgareddau canlynol:

- Hyfforddiant ac ymarfer – Cynhaliwyd archwiliad o'r hyfforddiant a sefydlwyd rhaglen i sicrhau bod digon o swyddogion ar draws y Cyngor wedi hyfforddi at lefel Aur, Arian ac Efydd. Yn ogystal, cefnogwyd gwahanol ymarferion gan gynnwys y Ddraig Ymarfer (Llygredd Arfordirol), Ymarfer Cygnus (Clefydau Pandemig) ac Ymarfer Elwy (Ymateb i Lifogydd). Hefyd, darparwyd hyfforddiant ychwanegol yn y Ganolfan Orffwys.

- Cynllunio Parhad Busnes – Cynhaliwyd archwiliad ar draws y rhanbarth o bob Cynllun Parhad Busnes a datblygwyd cynlluniau gwella ar gyfer pob Cyngor. Darperir cefnogaeth bellach i sicrhau y gweithredir argymhellion.

- Adolygu Trefniadau Ymateb – Darparwyd cefnogaeth i adolygu ac ailwampio trefniadau Ymateb i Argyfwng Sir Ddinbych. Sefydlwyd strwythur clir a set o drefniadau adrodd a nodwyd swyddogion arweiniol. Mae’r rhain yn cael eu diweddaru ar hyn o bryd yn dilyn newidiadau i drefniadau uwch reoli. Mae rota ar-alwad 'Aur' wedi'i sefydlu i sicrhau bod cyflenwad uwch ar gael bob amser pe bai yna ddigwyddiad brys. Mae Polisi Rheoli Argyfwng gwell yn agos at gael ei gwblhau, gan gynnwys canllawiau hawdd i gael mynediad atynt a rhestrau gwirio ar gyfer swyddogion ar wahanol lefelau o fewn y trefniadau ymateb i argyfwng.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'n bwysig bod y Cyngor yn gallu dangos trefniadau cadarn a gwydn ar gyfer ymdrin ag argyfwng a all ddigwydd o fewn y Sir. Mae’r gwasanaeth rhanbarthol yn galluogi hyn drwy rannu capasiti ac arbenigedd ar draws yr ardal.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae costau i'r Cyngor wedi gostwng o ganlyniad i ymgysylltu â Gwasanaeth Rhanbarthol i Gynllunio Rhag Argyfwng.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen AEC ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd ymgynghoriadau pan wnaethpwyd y penderfyniad i ymrwymo i’r trefniadau rhanbarthol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amh.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Ystyriwyd risgiau llawn pan wnaethpwyd y penderfyniad i wneud trefniant rhanbarthol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad:**

Nid oes angen gwneud penderfyniad, ond mae Erthyglau 6.1, 6.3.3(d) a 6.3.4(d) yn amlinellu pwerau Archwilio mewn perthynas â gwaith y Gwasanaeth.

**Swyddog Cyswllt:**
Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a’r Parth Cyhoeddus
Ffôn: 01824 706061